Office of the
Traffic Commissioner

# Canllaw i Wrandawiadau Ymddygiad Gyrwyr

**Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig y dylech ei ddarllen cyn gwrandawiad**

**Mae canllawiau eraill ar gael ar-lein ar wefan:**

www.gov.uk/government/publications/traffic-commissioners-vocational-driver-conduct-january-2016

# CYNNWYS


| | | Tuda len |
|---|---|---|
| **1** | **Rôl y comisiynwyr traffig** | **3** |
| **2** | **Pwerau'r comisiynwyr traffig** | **3** |
| **3** | **Enghreifftiau o gamau y gall comisiynydd traffig eu cymryd** | **4** |
| **4** | **Beth yw Gwrandawiad Ymddygiad Gyrwyr?** | **4** |
| **5** | **Sut bydd gyrrwr yn cael ei hysbysu am Wrandawiad Ymddygiad Gyrrwr?** | **5** |
| **6** | **Cyhoeddi Gwrandawiadau** | **5** |
| **7** | **Presenoldeb** | **6** |
| **8** | **Paratoi ar gyfer Gwrandawiad Ymddygiad Gyrwyr**<br><br>Gofynion penodol<br>Cynrychioliad<br>Darparu dogfennau | **6**<br><br>6<br>7<br>7 |
| **9** | **Y Gwrandawiad**<br><br>Cyrraedd - Gwrandawiadau rhithwir<br>Cyrraedd - Gwrandawiad wyneb yn wyneb<br>Y Gweithrediadau<br>Recordiad o'r gwrandawiad<br>Y Penderfyniad | **8**<br><br>8<br>8<br>9<br>10<br>10 |
| **10** | **Apeliadau** | **10** |

## 1. RÔL Y COMISIYNWYR TRAFFIG

1.1 Penodir comisiynwyr traffig gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac mae ganddynt gyfrifoldeb yn eu rhanbarth neu wlad am drwyddedu a rheoleiddio gweithredwyr nwyddau a cherbydau gwasanaeth cyhoeddus a'r rhai sy'n eu gyrru. Mae wyth comisiynydd traffig yn gwasanaethu chwe rhanbarth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

1.2 Gall yr Ysgrifennydd Gwladol atgyfeirio ymgeiswyr neu ddeiliaid hawl gyrru cerbydau nwyddau mawr a/neu gerbyd cludo teithwyr os oes pryderon ynghylch eu haddasrwydd i ddal hawl o’r fath oherwydd sut y maent wedi ymddwyn. Gallai hyn fod oherwydd eu cofnod gyrru, neu yn achos gyrwyr cerbyd cludo teithwyr unrhyw fater perthnasol arall, e.e. troseddau am ladrad neu drais er mwyn amddiffyn y cyhoedd, plant ac oedolion agored i niwed.

1.3 Fel arfer anfonir atgyfeiriadau, ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA), ond gellir eu derbyn hefyd gan yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau, yr Heddlu, neu Gyrff eraill.

1.4 Cyfeirir yn aml at eu gwaith mewn perthynas â gyrwyr fel ‘ymddygiad gyrrwr galwedigaethol’.

## 2. PWERAU'R COMISIYNWYR TRAFFIG

2.1 Mae gan gomisiynydd traffig amrywiaeth o bwerau sy’n ymwneud ag awdurdod gyrrwr i yrru cerbyd nwyddau mawr neu gerbydau cludo teithwyr. Dylid cofio nad rôl comisiynydd traffig yw cosbi gyrwyr, mater i’r llysoedd yw hynny. Rôl comisiynydd traffig yw penderfynu a ellir ymddiried yn y gyrrwr i yrru cerbydau mawr yn ddiogel ac i gydymffurfio â’r gyfraith. Gall hyn gynnwys ei gwneud yn ofynnol i yrrwr ddod i arfer â gyrru eto mewn cerbyd bach yn dilyn gwaharddiad cyn rhoi hawl iddo yrru cerbydau mwy.

2.2 Gellir rhannu achosion a gyfeirir at y comisiynydd traffig yn fras i’r canlynol:

a) pan fo gyrrwr yn gwneud cais am hawl dros dro
b) pan fydd gyrrwr yn dod i ddiwedd cyfnod o waharddiad a bod ystyriaeth i’w rhoi a fyddai cais i ddychwelyd yr hawl cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr yn y dyfodol yn cael ei ganiatáu
c) lle mae gan yrrwr hawl gyfredol a’i fod wedi cyflawni troseddau a bod angen i gomisiynydd traffig ystyried a ddylid cadw’r hawl cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr

2.3 Mae rhesymau eraill dros atgyfeiriadau, ond mae'r rhain yn ffurfio mwyafrif yr achosion.

2.4 Mae pwerau’r comisiynwyr traffig yn amrywio yn dibynnu ar natur yr achos, ond gallent gynnwys gwrthod cais am hawl, gosod gwaharddiad ychwanegol ar yr hawl i yrru cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr ar ddiwedd

gwaharddiad rhag gyrru, neu atal neu ddirymu (tynnu) hawl gyfredol fel nad oes gan y gyrrwr yr hawl i yrru cerbydau nwyddau mawr neu gerbydau cludo teithwyr mwyach. Wrth gymryd hawl i ffwrdd gall comisiynydd traffig wahardd y gyrrwr rhag dal hawl gyrru cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr am gyfnod o amser neu am gyfnod amhenodol.

2.5 Dylid nodi nad oes gan gomisiynydd traffig unrhyw awdurdodaeth dros yr hawl i yrru cerbydau heblaw cerbydau nwyddau mawr neu gerbydau cludo teithwyr. Os bydd comisiynydd traffig yn atal hawl, dim ond i'r hawl cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr o drwydded yrru y mae'n berthnasol.

## 3. ENGHREIFFTIAU O GAMAU Y GALL COMISIYNYDD TRAFFIG EU CYMRYD

3.1 Mae'r Uwch Gomisiynydd Traffig wedi cyhoeddi Canllawiau Statudol a Chyfarwyddiadau Statudol (a elwir gyda'i gilydd yn Ddogfen Statudol) sy'n nodi'r dull y dylai comisiynydd traffig ei fabwysiadu wrth benderfynu ar faterion ymddygiad gyrrwr galwedigaethol. Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun a bydd y comisiynydd traffig yn ystyried sylwadau a wneir gan yrrwr wrth benderfynu ar yr achos. Fodd bynnag, mae'r Ddogfen Statudol yn rhoi syniad defnyddiol o'r hyn y gall gyrrwr ei ddisgwyl.

Enghraifft 1:

Gall gyrrwr sy'n cael ei riportio i gomisiynydd traffig am ddefnyddio ffôn symudol mewn cerbyd masnachol ddisgwyl i gomisiynydd traffig atal yr hawl i yrru cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr am bedair wythnos.

Enghraifft 2:

Gall gyrrwr y canfyddir bod ganddo gofnodion oriau gyrru wedi'u ffugio'n fwriadol ddisgwyl i'w drwydded cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr gael ei dirymu a chael ei wahardd am 12 mis.

Enghraifft 3:

Gall gyrrwr sy'n diystyru gwybodaeth llwybro neu arwyddion ffordd ac yn taro pont ddisgwyl i'w drwydded cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr gael ei dirymu a chael ei wahardd am chwe mis.

Enghraifft 4:

Gall ail drosedd o oryrru mewn cerbyd masnachol arwain at yrrwr yn cael ataliad o'i hawl cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr am chwe wythnos.

Enghraifft 5:

Gall gyrrwr sy'n dymuno ailafael yn ei yrfa yrru ar ôl gwaharddiad rhag gyrru am dair blynedd ddisgwyl y bydd y comisiynydd traffig yn gosod gwaharddiad ychwanegol o'r hawl i yrru cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr am o leiaf 12 wythnos.

## 4. BETH YW GWRANDAWIAD YMDDYGIAD GYRWYR?

4.1 Mae comisiynydd traffig yn debygol o benderfynu ar nifer o atgyfeiriadau yn seiliedig ar y papurau ger ei fron ef/hi. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys rhoi cyfle i yrrwr wneud sylwadau ar y troseddau, neu effaith peidio â chael gyrru cerbydau mwy.

4.2 Fodd bynnag, mewn achosion mwy difrifol bydd gyrrwr yn cael ei alw i fynychu gwrandawiad ymddygiad gyrrwr. Mae'r rhain yn wrandawiadau tribiwnlys ffurfiol gerbron comisiynydd traffig, yn debyg i wrandawiad llys. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i yrrwr fynd i'r swyddfa ardal draffig berthnasol ar gyfer yr ardal y mae'n byw ynddi, neu efallai y caiff y cyfle i'r gwrandawiad gael ei gynnal o bell gan ddefnyddio technoleg ddigidol. Bydd y llythyr sy'n hysbysu gyrrwr am wrandawiad yn nodi a fydd y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn rhithwir neu'n 'wyneb yn wyneb'.

4.3 Enghreifftiau cyffredin lle bydd gyrrwr yn cael ei alw i fynychu gwrandawiad yw fel a ganlyn:

- Ymgeiswyr dros dro yn gwneud cais am hawl cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr gyda gwaharddiad o dros flwyddyn ac sydd wedi dod i ben o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf
- Gyrwyr sydd wedi cael eu gwahardd rhag gyrru dros dair blynedd, neu lle bu nifer o waharddiadau
- Gyrwyr sydd wedi cael dwy euogfarn neu fwy am ddefnyddio ffôn symudol mewn unrhyw gerbyd, neu drosedd sengl mewn cerbyd masnachol
- Gyrwyr â throseddau yn ymwneud ag oriau gyrwyr a thacograffau
- Gyrwyr cerbydau cludo teithwyr y canfuwyd eu bod wedi cyflawni trosedd

4.4 Mae comisiynydd traffig yn eistedd fel tribiwnlys un person. Lle bo'n briodol, gallant alw ar dystion i gyflwyno tystiolaeth. Mae hyn fel arfer ar gyfer achosion a gyfeiriwyd gan yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau am dorri oriau gyrwyr, neu debyg. Os yw'r troseddau o ganlyniad i ardystiadau ar drwydded yrru, mae'n annhebygol y bydd tystion yn cael eu galw.

4.5 Rhoddir cyfle i yrrwr esbonio pam y cyflawnwyd y troseddau ac unrhyw ffactorau lliniarol, gan gynnwys sut y mae'r camau y maent wedi'u cymryd i sicrhau y byddant yn yrrwr diogel sy'n parchu'r gyfraith yn y dyfodol. Bydd y comisiynydd traffig yn gofyn cwestiynau a dylai gyrrwr fod yn barod i'w hateb yn onest ac yn agored.

## 5. SUT BYDD GYRRWR YN CAEL EI HYSBYSU AM WRANDAWIAD YMDDYGIAD GYRRWR?

5.1 Bydd y llythyr yn galw'r gyrrwr i'r gwrandawiad yn esbonio pam mae gwrandawiad yn cael ei gynnal ac yn rhoi manylion y ddeddfwriaeth y mae wedi'i alw oddi wrth, ynghyd â'r dystiolaeth y bydd y comisiynydd traffig yn ei hystyried. Bydd hwn yn cael ei anfon i'r cyfeiriad gohebiaeth a gofnodir ar y drwydded yrru. Felly, mae'n bwysig i yrwyr sicrhau bod y DVLA yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

5.2 Bydd y llythyr yn rhoi gwybodaeth am y gwrandawiad a'r camau y dylai'r gyrrwr eu cymryd. Mae'n bwysig bod y gyrrwr yn cydymffurfio ag unrhyw

gyfarwyddiadau yn y llythyr yn brydlon. Gallai methu â gwneud hynny arwain at oedi wrth ystyried cais i yrru cerbydau mawr ac mewn achosion eraill gallai arwain at gomisiynydd traffig yn atal neu'n dirymu'r hawl i yrru cerbyd nwyddau mawr/cerbyd cludo teithwyr.

5.3 Fel arfer bydd yr hysbysiad yn cael ei anfon o leiaf 21 diwrnod cyn y gwrandawiad. Gellir byrhau'r cyfnod hwn gyda chytundeb y gyrrwr. Nid yw'r amserlenni'n berthnasol ar gyfer achosion sydd wedi'u gohirio o ddyddiad cynharach.

5.4 Os na fydd gyrrwr yn mynychu gwrandawiad heb reswm da, mae'r comisiynydd traffig yn debygol o wrthod unrhyw gais am hawl neu atal neu ddirymu unrhyw hawl sy'n bodoli eisoes.

## 6. CYHOEDDI GWRANDAWIADAU

6.1 Er bod gwrandawiadau ymddygiad gyrwyr fel arfer yn agored i'r cyhoedd eu mynychu, nid ydynt yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw. Gall comisiynydd traffig alw gweithredwr a gyrrwr i ymchwiliad cyhoeddus ar y cyd a gwrandawiad ymddygiad gyrrwr. Bydd yr ymchwiliad cyhoeddus ar gyfer y gweithredwr yn cael ei gyhoeddi ymlaen llaw ond ni fydd gyrwyr sy'n cael eu galw yn cael eu henwi.

6.2 Oni bai ei fod yn wrandawiad ar y cyd, ni fydd cyflogwr fel arfer yn cael gwybod am y gwrandawiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Traffig. Mae'n bwysig bod gyrwyr yn hysbysu cyflogwyr os cânt eu galw i wrandawiad oherwydd gallai'r canlyniad effeithio ar eu busnes.

## 7. PRESENOLDEB

7.1 Ni waeth p'un a yw'r gwrandawiad yn wyneb yn wyneb neu'n rithwir, rhaid i'r gyrrwr sy'n cael ei alw i wrandawiad fynychu'r gwrandawiad. Ni all gyrrwr anfon rhywun i fynychu yn ei le. Gall methu â mynychu'r gwrandawiad arwain at benderfynu ar y mater yn absenoldeb y gyrrwr.

7.2 Os na all y gyrrwr fod yn bresennol ar y dyddiad a roddwyd ar gyfer y gwrandawiad, gellir gwneud cais am ohiriad. Fodd bynnag, ni fydd gwrandawiadau fel arfer yn cael eu gohirio heblaw bod rheswm da a chymhellol dros wneud hynny. Felly bydd angen i'r comisiynydd traffig wybod y rhesymau pam na all y gyrrwr fod yn bresennol. Er enghraifft, os oes gwyliau a gynlluniwyd o flaen llaw, gall y comisiynydd traffig ofyn am dystiolaeth ei fod wedi'i gynllunio cyn dyddiad y llythyr sy'n galw'r gyrrwr i'r gwrandawiad.

7.3 Nid yw comisiynydd traffig yn rhwym yn awtomatig i dderbyn tystysgrif feddygol. Rhaid i geisiadau am ohiriadau ar sail feddygol gael eu cefnogi gan dystiolaeth feddygol sy'n nodi os a pham na all y gyrrwr fynychu gwrandawiad. Nid yw unrhyw wrandawiad wedi'i rwymo'n awtomatig gan dystysgrif feddygol a chaiff ddefnyddio ei ddisgresiwn i ddiystyru tystysgrif, yn enwedig lle:

- bo'r dystysgrif yn datgan bod y gyrrwr yn anaddas i weithio (yn hytrach

na'n anaddas i fynychu gwrandawiad);

- mae'n ymddangos nad yw natur yr anhwylder, (e.e. torri braich), yn gallu

atal presenoldeb yn y gwrandawiad;

- mae'r gyrrwr wedi'i ardystio fel un sy'n dioddef o straen / gorbryder / iselder ac nid oes unrhyw arwydd o wella o fewn amserlen realistig.

## 8. GOFYNION PENODOL PARATOI AR GYFER

### GWRANDAWIAD GYRRWR

8.1 Os oes gan unrhyw un sy'n mynychu'r gwrandawiad unrhyw ofynion penodol neu angen eu cymryd i ystyriaeth e.e. at ddibenion crefyddol, mynediad i gadeiriau olwyn, nam ar y clyw neu'r golwg, neu os oes angen cyfieithydd, rhaid iddynt rhoi gwybod i Swyddfa berthnasol y Comisiynydd Traffig o leiaf bythefnos cyn dyddiad y gwrandawiad er mwyn gallu gwneud y trefniadau angenrheidiol.

8.2 Mae comisiynwyr traffig yn deall y gall ystod eang o amodau achosi anhawster i'r rhai sy'n mynychu gwrandawiadau. Yn ogystal â'r amodau corfforol gweledol amlwg, efallai y bydd gan rai pobl gyflyrau nad ydynt yn amlwg, ond a allai gyflwyno heriau ychwanegol. Gall y rhai sy'n bresennol mewn gwrandawiadau fod yn sicr y bydd unrhyw fater a godir gyda staff neu'r comisiynwyr yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol. Cymerir pob cam rhesymol i ddarparu ar gyfer anghenion unigol, ond mae'n bwysig bod Swyddfa'r Comisiynydd Traffig yn cael rhybudd priodol.

8.3 Os bydd gan fynychwyr hoffterau penodol o ran sut yr eir i'r afael â hwy, er enghraifft y defnydd o ragenwau, neu ar unrhyw fater arall y maent yn ei ystyried yn sensitif, dylent ei godi gyda'r staff naill ai cyn diwrnod y gwrandawiad neu cyn iddo ddechrau.

### CYNRYCHIOLIAD

8.4 Gall gyrrwr ofyn i rywun ei gynrychioli ef/hi yn y gwrandawiad. Gall hwn fod yn eiriolwr cymwysedig: Cwnsler (bargyfreithiwr yn Lloegr a Chymru neu aelod o Gyfadran yr Eiriolwyr yn yr Alban), neu gyfreithiwr. Gall unrhyw un arall, gan gynnwys rheolwr trafnidiaeth, cynrychiolydd undeb llafur, ymgynghorydd trafnidiaeth neu ffrind siarad dim ond os ceir cytundeb y comisiynydd traffig ymlaen llaw. Nid oes cyfreithiwr ar ddyletswydd yn bresennol yn y gwrandawiad ac nid oes 'Cymorth Cyfreithiol' ar gael i gynrychioli. Mater i'r gyrrwr yw ystyried a ddylai geisio cyngor annibynnol cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn y llythyr yn hysbysu'r gwrandawiad. Mae comisiynydd traffig yn annhebygol o dderbyn cais i ohirio'r gwrandawiad ar y diwrnod ar y sail bod y gyrrwr nawr yn dymuno cael ei gynrychioli.

8.5 Os bydd gyrrwr yn penderfynu cael ei gynrychioli, dylid trosglwyddo'r llythyr yn hysbysu'r cynrychiolydd o'r gwrandawiad cyn gynted â phosibl er mwyn caniatáu digon o amser i baratoi'r achos yn iawn a hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Traffig.

8.6 Cyn ymrwymo i unrhyw gytundeb i gael ei gynrychioli dylai gyrrwr sicrhau bod gan y cynrychiolydd arfaethedig wybodaeth dda am y ddeddfwriaeth a gofynion y comisiynwyr traffig. Mae'r rhain yn faterion arbenigol ac ni fydd gan bob cyfreithiwr neu ymgynghorydd ddigon o brofiad i gynrychioli gyrwyr yn

effeithiol. Os yw gyrrwr yn aelod o gymdeithas fasnach

neu undeb llafur, efallai y gallant argymell cynrychiolydd.

8.7 Mae'n bosibl y cynghorir gyrrwr y bydd rhywun sy'n dymuno ei gynrychioli yn cysylltu ag ef i geisio sefydlu ei brofiad cyn dod i unrhyw gytundeb. Gellir gwneud hyn drwy ofyn am eirdaon gan gleientiaid blaenorol neu ofyn iddynt egluro'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y Dogfennau Statudol (Dogfen Statudol 6 yn benodol) a gyhoeddwyd gan yr Uwch Gomisiynydd Traffig. Ni all Swyddfa'r Comisiynydd Traffig wneud argymhellion gan gynrychiolwyr, ond gall gadarnhau gwybodaeth ffeithiol, megis a yw cynrychiolydd penodol yn hysbys i'r comisiynydd traffig ac a yw'n debygol o gael ei gymeradwyo i gynrychioli gyrrwr yn y gwrandawiad.

8.8 Unwaith y caiff ei benodi, dylai cynrychiolydd ymgyfarwyddo â ffeithiau'r achos a dylid hysbysu'r comisiynydd traffig ymlaen llaw o enw'r person a fydd yn bresennol.

8.9 Nid oes darpariaeth i wneud cais am y costau na'r gost o fynychu gwrandawiad ac nid oes gan y comisiynydd traffig unrhyw bŵer i wneud dyfarniad o'r fath.

**DARPARU DOGFENNAU**

8.10 Bydd y llythyr sy'n hysbysu gyrrwr am wrandawiad hefyd yn cynnwys cyfarwyddiadau a chyfarwyddiadau penodol. Dylid cydymffurfio'n llawn â'r rhain. Pan fo angen anfon rhai dogfennau cyn gwrandawiad, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hanfon at Swyddfa berthnasol y Comisiynydd Traffig o fewn y cyfnod a nodir, fel bod digon o amser i'w hystyried yn briodol. Os na dderbynnir dogfennau yn unol â chyfarwyddiadau, gall comisiynydd traffig benderfynu peidio â'u cymryd i ystyriaeth. Gallai hyn gael effaith negyddol ar achos y gyrrwr.

## 9. Y GWRANDAWIAD

**GWRANDAWIADAU RHITHWIR**

9.1 Gall gwrandawiadau rhithwir fod o fudd i ganiatáu i achosion gael eu clywed heb i yrrwr orfod teithio'n bell i wrandawiad. Mater i'r comisiynydd traffig yn unig yw a yw gwrandawiad rhithwir yn addas, a bydd hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cymhlethdod yr achos ac amgylchiadau'r cyfranogwyr. Bydd y comisiynydd traffig yn asesu a yw gwrandawiad rhithwir yn addas ar yr wybodaeth sydd o'i flaen.

9.2 Os yw'r gwrandawiad i'w gynnal yn rhithwir, bydd cyfarwyddiadau ar sut i gymryd rhan yn cael eu nodi yn y llythyr sy'n galw'r gyrrwr i'r gwrandawiad. Gall gwrandawiadau rhithwir fod yn fwy cymhleth i'w clywed felly mae'n bwysig bod cyfranogwyr yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y gwrandawiad yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau cyn y gwrandawiad bod:

- yna fynediad at ddyfais addas, mae'n well defnyddio cyfrifiaduron, gliniaduron neu dabledi yn hytrach na ffonau symudol. Dylid ystyried

benthyg dyfais addas os nad oes gan yrrwr mynediad at un. Dim ond os yw wedi'i osod yn ddiogel mewn crud neu mewn modd tebyg i atal symudiad y gellir defnyddio ffôn symudol. Rhaid iddo beidio â bod yn ddyfais llaw.

- bod yr offer yn gallu cefnogi Microsoft Teams. Bydd angen lawrlwytho'r MS Teams Application ar dabledi a ffonau clyfar. Dylai gyrrwr hefyd sicrhau ei fod yn hyderus bod y cyfarpar yn gweithredu cyn i'r gwrandawiad ddechrau.
- bod cysylltiad rhyngrwyd addas a sefydlog.
- bod y cyfranogwr mewn ystafell neu ardal dawel, heb unrhyw sŵn cefndir a lle na fydd yn cael ei aflonyddu. Nid yw'n briodol cynnal y gwrandawiad o gerbyd.

9.3 Bydd person sy'n deialu i'r gwrandawiad yn cael ei gludo i lobi rhithwir. Bydd y clerc yn ymwybodol o hyn ac yn gwybod bod rhywun yn aros. Ar yr amser priodol bydd y clerc yn ymuno â'r alwad ac yn gwahodd y rhai sy'n bresennol i'r gwrandawiad.

9.4 Dylai camerâu aros ymlaen bob amser a dylai fod gan yrrwr ID yn barod i'w ddangos ar y sgrin. Bydd y clerc yn gwirio’r ID ac yn cynghori’r rhai sy’n bresennol sut y bydd y gwrandawiad yn mynd yn ei flaen ac yn ateb unrhyw gwestiynau cyn i’r gwrandawiad ddechrau.

9.5 Yna bydd y clerc yn gwahodd y comisiynydd traffig i'r gwrandawiad ac yn cyflwyno'r achos. Unwaith y bydd y recordiad o'r gwrandawiad wedi dechrau bydd y clerc yn diffodd ei gamera ei hun ond bydd yn aros yn y gwrandawiad i gymryd nodiadau ac ymdrin ag unrhyw faterion sy'n codi.

9.6 Ar ddiwedd y gwrandawiad bydd y Comisiynydd yn arwyddo allan a bydd y clerc yn ymddangos eto i ateb unrhyw gwestiynau pellach a chynghori ar y broses benderfynu.

**GWRANDAWIADAU YN BERSONOL**

9.7 Oni bai y cyfarwyddir yn wahanol, fe'ch cynghorir i gyrraedd y lleoliad o leiaf
15 munud cyn bod y gwrandawiad i fod i ddechrau a dod ag unrhyw ohebiaeth ynghylch y gwrandawiad ynghyd ag unrhyw bapurau achos a anfonwyd gyda'r llythyr, ac adnabod â ffotograff.

9.8 Dylai’r rhai sy’n darparu cynrychiolaeth sicrhau eu bod wedi cofrestru eu presenoldeb gyda Chlerc y Gwrandawiad a fydd yn gwneud nodyn o enwau’r bobl sy’n bresennol, a’r rhai sydd am siarad yn y gwrandawiad. Gallai unrhyw fethiant i gofrestru arwain at golli’r cyfle i gael gwrandawiad.

9.9 Gofynnir i yrwyr sy'n mynychu gwrandawiad ddangos llun adnabod, megis pasbort neu drwydded yrru, i gadarnhau pwy ydynt. Gall methu â chyflwyno’r adnabyddiaeth ofynnol arwain at y comisiynydd traffig yn gwrthod parhau â’r gwrandawiad. Os oes unrhyw un yn ansicr pa brawf adnabod sy'n dderbyniol, dylent gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Traffig am eglurhad.

9.10 Bydd Clerc y Gwrandawiad yn rhoi gwybod i’r rhai sy’n bresennol ble i

eistedd a bydd yn ceisio ateb unrhyw gwestiynau sydd ganddynt am y trafodion. Gall yr amser cychwyn

gwirioneddol ddibynnu ar achosion eraill a restrir ar gyfer gwrandawiad y diwrnod hwnnw. Sicrhewch fod ffonau symudol yn cael eu diffodd cyn mynd i mewn i ystafell y gwrandawiad.

**Y GWEITHREDIADAU**

9.11 Mae gwrandawiadau 'yn bersonol' a gwrandawiadau rhithwir yn achosion ffurfiol a disgwylir i'r rhai sy'n bresennol ddangos parch at eraill ac at yr achosion eu hunain. Dylid rhoi sylw i'r comisiynydd traffig yn syml fel 'Comisiynydd'.

9.12 Ni roddir tystiolaeth o dan lw, ond mae'n ofynnol i yrwyr, cynrychiolwyr ac unrhyw dystion ddweud y gwir bob amser. Gallai unrhyw fethiant i wneud hynny effeithio ar y pwysau a roddir i dystiolaeth y person hwnnw. At hynny, gallai rhoi tystiolaeth ffug i gomisiynydd traffig gyfeirio at y mater yn cael ei gyfeirio at yr heddlu a gallai cyhuddiadau troseddol ddilyn.

9.13 Mae'r gwrandawiad yn agored i aelodau'r cyhoedd ac unrhyw bartïon eraill â diddordeb. Bydd y comisiynydd traffig yn ystyried, ar gais, os dylid clywed tystiolaeth sensitif benodol mewn sesiwn breifat, megis gwybodaeth ariannol neu wybodaeth feddygol bersonol.

9.14 Ar ôl i'r clerc gyhoeddi'r achos a rhoi manylion cryno, bydd y comisiynydd traffig yn amlinellu natur y trafodion er mwyn sicrhau bod pawb yn deall pam ei fod yn digwydd a'r gweithdrefnau i'w dilyn.

9.15 Bydd pawb sydd â hawl i roi tystiolaeth, gwneud cyflwyniadau, neu wneud sylwadau yn cael cyfle i siarad a gofyn cwestiynau perthnasol. Mater i'r comisiynydd traffig yw penderfynu beth sy'n berthnasol at ddibenion yr achos. Gall unrhyw un sy'n rhoi tystiolaeth i'r gwrandawiad ddisgwyl i chi, neu gynrychiolydd sy'n gweithredu ar eich rhan, ofyn cwestiynau iddynt. Bydd y comisiynydd traffig hefyd yn gofyn cwestiynau i bob parti.

9.16 Yn ystod yr achos gall y comisiynydd traffig ofyn i'r gyrrwr beth fyddai'r effeithiau pe bai camau'n cael eu cymryd yn erbyn yr hawl alwedigaethol.

9.17 Yn olaf, bydd y comisiynydd traffig yn ystyried yr holl dystiolaeth sydd wedi'i rhoi gerbron y gwrandawiad.

9.18 Gall fod yn ddefnyddiol i yrwyr baratoi rhai nodiadau ymlaen llaw, gan restru'r pwyntiau perthnasol y dymunir eu gwneud yn y gwrandawiad, gan gofio'r ffactorau y gall y comisiynydd traffig eu cymryd i ystyriaeth.

**RECORDIAD O'R GWRANDAWIAD**

9.19 Bydd y trafodion yn cael eu recordio fel y gellir cynhyrchu trawsgrifiad, pe bai angen un. (Fel arfer, dim ond mewn achosion lle mae apêl yn erbyn penderfyniad y comisiynydd traffig y caiff trawsgrifiadau eu harchebu.) Sylwch y gallai gwybodaeth bersonol gael ei chofnodi yn ystod y gwrandawiad a gallai gael ei rhoi i'r cyhoedd oni bai bod y gyrrwr yn gofyn i'r

wybodaeth hon gael ei rhoi yn breifat. Gall unrhyw gais o'r fath gael ei ganiatáu yn ôl disgresiwn y comisiynydd traffig.

9.20 Sylwch y gall unrhyw wybodaeth a ddarperir i'r gwrandawiad gael ei datgelu i drydydd parti at ddibenion gorfodi.

9.21 Ni chaniateir i unrhyw un sy'n mynychu'r gwrandawiad wneud unrhyw record arall o'r achos.

**Y PENDERFYNIAD**

9.22 Safon y prawf mewn achosion gerbron comisiynydd traffig yw'r safon sifil. Mae hyn yn golygu mai'r unig beth y mae angen i'r comisiynydd traffig ei fodloni yw bod yr achos wedi'i brofi ar 'gydbwysedd tebygolrwydd', mewn geiriau eraill 'a yw'n fwy tebygol na pheidio' bod rhywbeth penodol wedi digwydd. Mae hyn yn wahanol i'r safon sy'n ofynnol ar gyfer achos llys troseddol, lle mae'r prawf 'y tu hwnt i bob amheuaeth resymol'.

9.23 Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y comisiynydd traffig yn hysbysu'r rhai sy'n mynychu am y penderfyniad ar y diwrnod a bydd hyn yn cael ei gadarnhau'n ysgrifenedig o fewn ychydig ddyddiau. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y comisiynydd traffig am ystyried ei benderfyniad ymhellach, ac os felly bydd y penderfyniad ysgrifenedig yn cael ei anfon cyn gynted â phosibl, fel arfer o fewn 28 diwrnod ar ôl i'r comisiynydd traffig dderbyn yr holl wybodaeth berthnasol.

## 10. APELIADAU

10.1 Bydd manylion ynghylch sut i apelio yn cael eu nodi yn y llythyr penderfyniad, a fydd yn cael ei anfon allan ar ôl y gwrandawiad.

10.2 Bydd manylion ynghylch sut i ffonio yn cael eu nodi yn y llythyr atgoffa, a fydd yn cael ei anfon allan ar ôl y ceisiadau. Yn yr Alban, bydd apêl yn cael ei chynnal gerbron Llys y Siryf.

10.3 Rhaid cyflwyno apeliadau o fewn chwe mis i benderfyniad y comisiynydd traffig yng Nghymru a Lloegr. Yn yr Alban rhaid cyflwyno apêl ddim hwyrach na 21 diwrnod ar ôl y dyddiad y cawsoch eich hysbysu o'r penderfyniad, er y gall y Siryf wrando apêl a gyflwynir ar ôl y terfyn 21 diwrnod ar sail achos arbennig a ddangosir.

10.4 Rhaid rhoi rhybudd ymlaen llaw o'r bwriad i apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Comisiynydd Traffig a wnaeth y penderfyniad.